

#CEDAW

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob
Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW)
Adroddiad Cysgodol Cymru Ionawr 2019**

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW)

Adroddiad Cysgodol Cymru: Diweddariad mis Ionawr 2019

Cyflwyniad

Nid yw llywodraethau'r DU a datganoledig wedi cynnwys CEDAW yn uniongyrchol i gyfraith a pholisi domestig. Fodd bynnag, mae sawl hawl CEDAW yn cael effaith rhannol drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Ddeddf Hawliau Dynol a deddfwriaeth, polisiau a rhaglenni eraill. Mae Deddf Cymru 2017 wedi datganoli mwy o benderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fenywod/ferched. Fodd bynnag, mae'r setliad cyfansoddiadol yn golygu bod arian ar gyfer materion datganoledig dal i fod yn destun rheolaeth uniongyrchol gan San Steffan.¹ Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mapio yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU, wedi cyflwyno'r nod llesiant o 'Gymru fwy cyfartal' i awdurdodau lleol ac wedi rhoi cyfle newydd i dorri'r rhwystrau ar gyfer y 3.1 miliwn o bobl yng Nghymru, y mae 52% o'r rheiny'n fenywod. Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 hefyd yn rhoi cyfle i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhyw drwy atal, diogelu a chefnogi'r sawl sy'n profi'r trais a'r gamdriniaeth yma. Er gwaethaf y cyfleoedd hyn i fynd i'r afael â'r her fyd-eang o anghydraddoldeb rhyw a hawliau menywod, nid yw eto wedi cyflawni mwy o gydraddoldeb.

Ar hyn o bryd, mae Adolygiad Cydraddoldeb Rhyw Llywodraeth Cymru² sydd ar waith yng Nghymru yn gyfle i ddatblygu cydraddoldeb rhyw. Mae'n hanfodol bod yr adolygiad yn cynnwys argymhelliad Pwyllgor CEDAW yn dilyn yr archwiliad y wladwriaeth.

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynnwys argymhellion Pwyllgor CEDAW yn yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhyw.

¹ Mae Deddf Cymru 2017 yn caniatáu i rai ardollau trethiant gael eu datganoli i Gymru.

² <https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/review-of-gender-equality/?lang=cy>

Erthygl 2: Rhwymedigaethau i wahardd gwahaniaethu

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb rhyw wedi'i nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn y dyletswyddau penodol i gydraddoldeb yn y sector cyhoeddus (PSED), gan amlinellu set unigryw o ddyletswyddau penodol sy'n sail i'r ddyletswydd gyffredinol, gan roi cyfleoedd i Lywodraeth Cymru fesur cynnydd a gosod targedau a gweithredoedd effeithiol.³

Fodd bynnag, mae diffyg systematig data dadagrededig a chroestoriadol wedi'i gofnodi ac ar gael ledled Cymru a'r DU. Byddai modd mynd i'r afael â hyn petai canolfan ymchwil rhyw'n cael ei chreu i asesu a monitor deddfwriaeth, polisi ac arfer er effaith; gwneud argymhellion; a dal gwneuthurwyr penderfyniadau i gyfrif.

Mae angen hefyd ddychwelyd i Asesiadau Effaith Cydraddoldeb sy'n casglu, yn asesu ac yn dadagregu gwybodaeth ac ystadegau ar ryw, ac am ddeddfwriaeth gyrfach sy'n cael ei monitor er effaith a gweithredu.

Argymhellion:

- Dylai Llywodraeth y DU gynnwys holl ddarpariaethau CEDAW yng Nghyfraith y DU⁴
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys egwyddorion CEDAW yn neddfwriaeth Cymru ynghylch materion datganoledig
- Ylaid Llywodraeth y DU gywiro'r diffyg systematig o ddata wedi'i ddadagregu ar ryw drwy gyflwyno strategaeth ledled y DU
- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i ddadagregu data rhyw a chroestoriadol, gan gynnwys data sy'n benodol i Gymru
- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu canolfan ymchwil rhyw

Erthygl 3: Gwarantu hawliau a rhyddid dynol sylfaenol

Mae Deddfau Llywodraeth Cymru'n esbonio'n glir yr ymrwymiad i gydraddoldeb i bawb. Dylai'r egwyddorion a'r normau hyn gael eu cynnwys mewn polisiau/strategaethau ledled Cymru. Cafwyd peth datblygiad da yn hyn o beth. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn sy'n canolbwyntio ar hawliau, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru ac Ymgynghorydd/wyr Cenedlaethol ar ddod i ben â Thrais

³ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents>

⁴ Naill ai drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth Newydd sy'n debyg i Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

yn Erbyn Menywod. Fodd bynnag, mae pryderon yn y sector hawliau dynol a chydraddoldeb yng Nghymru ers Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁵, mae diogelu hawliau wedi'u hisraddio dan nod 'Cymru fwy cyfartal' y Ddeddf. Er bod y Ddeddf ei hun yn ddarn o ddeddfwriaeth holistig sy'n ystyried y dyfodol, nid oes mecanwaith atebolrwydd ystyrion yn bodoli oherwydd nid oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bwerau gorfodi. Mae dyletswydd cymdeithasol-economaidd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'i datganoli i Weinidogion Cymru dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru ac mae'n rhoi'r cyfle i gadarnhau peth o'r ansicrwydd ynghylch Prydael.⁶

Argymhelliad:

- Dylai Llywodraeth Cymru weithredu'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd yn adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Erthygl 4: Mesurau arbennig dros dro

Yn y maes gwleidyddol yng Nghymru, mae'r holl bleidiau gwleidyddol wedi ymgymryd â dull gwahanol – rhai'n gweithio'n fwy cadarnhaol i gynyddu niferoedd y menywod yn y Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Mae'r Plaid Lafur yn defnyddio rhestrau byr menywod yn unig, ac mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer yr AC benywaidd i 47%⁷ yng Nghymru. Yn etholiad Cynulliad Cymru 2016, roedd Plaid Cymru wedi gofyn am gydbwysedd rhyw yn y ddwy brif swydd ar restrau rhanbarthol y Cynulliad.⁸ Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol, UKIP na'r Ceidwadwyr yn defnyddio unrhyw ffurf ar weithredu cadarnhaol i sicrhau mwy o ymgeiswyr benywaidd. Cadarnhawyd y defnydd o gwtâu a mesurau eraill gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yng Nghymru.⁹

Argymhellion:

- Dylai Llywodraeth y DU ddefnyddio mesurau dros dro o gwtâu rhyw i gyflymu presenoldeb menywod mewn swyddi ag awdurdod a hrym mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol
- Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau argymhellion y Panel Arbenigwyr ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yng Nghymru, gan gynnwys cwotâu cyfreithiol, a sicrhau cydbwysedd rhyw mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru

⁵ <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

⁶ Deddf Cymru 2015, s. 45.

⁷ Cynnydd o 42% yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru oherwydd is-etholiadau a disodliadau mewn seddi cyfrannol.

⁸ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-27665486>

⁹ http://www.assembly.wales/en/abthome/about_us-commission_assembly_administration/panel-elec-reform/Pages/Assembly-Electoral-Reform.aspx

Erthygl 5: Rolau'n seiliedig ar stereoteip

Ym mis Ionawr 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Dyma Fi'¹⁰, sef ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i herio stereoteip rhyw yn y gymdeithas, gan ffurfio rhwn o'r ymgyrch barhaus i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae angen i negeseuon yr ymgyrch hon gael eu hymgorffori ledled Cymru i gefnogi pobl ar draws amrywiaeth o sectorau.

Mae'r cyfryngau a'r diwydiant hysbysebu'n chwarae rôl enfawr mewn mynd i'r afael â stereoteip neu barhau â nhw. Mae'r BBC wedi cydnabod hyn ac wedi gweithredu targed o 50:50 o ran cyflwynwyr benywaidd/gwrywaidd erbyn 2020 a chau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.¹¹ Mae angen mwy o fentrau mewn mannau eraill, er enghraifft, dylai rheoliadau'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ynghylch parhau â stereoteip mewn marchnata cynnyrch fod yn rhwymedig gyfreithlon.

Argymhellion:

- Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod rheoliadau'r Awdurdod Safonau Hysbysebu fod yn rhwymedigaeth gyfreithlon
- Dylai Llywodraeth y DU ddarparu arian cynaliadwy, tymor hir i fynd i'r afael â materion stereoteip rhyw ledled y DU
- Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â stereoteip rhyw mewn newidiadau'r cwricwlwm ac ar draws y gymdeithas, a gwerthuso effaith yr ymgyrch 'Dyma Fi' ar gyfer dysgu yn y dyfodol

Erthygl 6: Masnachu pobl a phuteindra

Mae Cymru'n wlad cludo a lleoli masnachu pobl: yn 2017, cyfeiriwyd 193 o bobl i'r Mekanwaith Cyfeirio Cenedlaethol.¹² Sefydlwyd gwaith aml-asiantaeth o ran masnachu pobl yn 2007 ac mae'n golygu cydweithio rhwng Cydlynnydd yn erbyn Masnachu Pobl, codi ymwybyddiaeth¹³, ac mae Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-Gaethwasiaeth Cymru'n ceisio gwella cydlyniant rhwng sefydliadau datganoledig a'r rheiny nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru, yn ogystal â chefnogaeth i oroeswyr.¹⁴ Croesewir lansiad Cod Ymarfer Cadwyni

¹⁰ <http://livefearfree.gov.wales/campaigns/this-is-me?lang=cy>

¹¹ http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/gender_equality_bbc.PDF

¹² National Crime Agency Statistics, 2017

¹³ Creu logo codi ymwybyddiaeth sy'n benodol i Gymru (Dewi) ac ymgyrchu drwy fideo:

<https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/anti-slavery/?lang=cy>

¹⁴ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/anti-slavery/what-we-are-doing/?lang=cy>

Cyflenwi hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern Gwestywyr¹⁵ a chynhadledd ddiweddar ar ffyrdd i fynd i'r afael âchaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Fodd bynnag, mae angen cymorth ar unwaith am ddiogeliad cyferithiol a chymdeithasol i fenywod sy'n ddiodefwrwr posib, ac mae'n rhaid i fenywod sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch puteindra dderbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y ddarpariaeth i gefnogi'r rheiny sy'n dewis gadael y byd puteindra.

Gwnaeth ymchwil Oxfam Cymru yn 2011¹⁶ dynnu sylw at y ffaith fod mewniod sy'n ceisio lloches a menywod heb gymorth arian cyhoeddus yn ddiameddiffyn i ecsbloetio rhywiol. Ceir tystiolaeth bod yr ymarferion ecsbloetio hyn dod yn gyffredin gyda chynnydd yn nifer y bobl ddigartref, yn benodol ymhlith menywod ifanc. Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o brofi 'digartrefedd cudd' ac o ganlyniad, yn fwy anodd eu cyrraedd i gynnig cefnogaeth iddynt, yn enwedig ynghylch materion ecsbloetio a cham-drin.¹⁷

Yn frawychus, daeth Shelter Cymru o hyd i'r ffaith fod 3% o denantiaid preifat benywaidd¹⁸ yng Nghymru wedi cael cael cais am 'rhyw yn lle rhent' dros y pum mlynedd diwethaf.¹⁹ Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau 'rhyw am rent' yng Nghymru drwy ddiwygio'r Cod Ymarfer i landlordiaid. Mae angen gwneud mwy ledled Cymru a'r DU fel bod gan fenywod fynediad diogel a chyfartal i dai.²⁰

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU weithredu ymagwedd hawliau dynol a chyfiawnder troseddol i fasnachu pobl sy'n ehangu ei ffocws o reoli ffiniau'n unig
- Mae'n rhaid i Lywodraethau'r DU a Chymru ddarparu cymorth ar unwaith i ddiogeliad cyfreithiol a chymdeithasol menywod sy'n ddiodefwrwr posib masnachu dynol neu ecsbloetio rhywiol
- Mae'n rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU weithredu strategaeth gydlynol i ddod i ben â'rhyw am rent', gan gynnwys sicrhau bod diwygiadau i God Ymarfer Cymru i Landlordiaid yn cael eu gorfodi'n effeithiol

¹⁵ <https://gov.wales/topics/improving-services/better/vfm/code-of-practice/?lang=en>

¹⁶ [Coping with Destitution](#) Strategaeth goroesi a bywoliaeth ceiswyr lloches a wrthodwyd sy'n byw yn y DU, 2011, Polisi ac Arfer Oxfam.

¹⁷ [Women's Hidden Homelessness](#), 2018, Homeless Link.

¹⁸ Oddeutu 6,900 o fenywod

¹⁹ Arolwg Shelter Cymru o denantiaid preifat a gynhaliwyd gan YouGov yn 2017.

²⁰ <https://www.24housing.co.uk/news/sex-for-rent-landlords-risk-licences-in-wales/> a <https://www.landlordtoday.co.uk/breaking-news/2018/5/welsh-government-to-clampdown-on-sex-for-rent-landlords?source=othernews>

- Mae'n rhaid i Lywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru fynd i'r afael yn effeithiol â phob math o ddigartrefedd, a chefnogi ac ariannu rhaglenni gadael i'r rhai hynny sydd am adael y byd puteindra

Erthygl 7: Darluniad Menywod mewn Bywyd Gwleidyddol a Chyhoeddus

Mae 18% o arweinwyr cynghorau²¹; 27.5% o AS; 28% o gynghorwyr;²² 6% o brif weithredwyr neu gyfwerth y 100 busnesau uchaf; yng Nghymru yn fenywod.²³ Mae menywod LGBT, anabl, dosbarth gweithiol a BME yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gael mynediad i bŵer a chynrychioli eu hunain ym mywyd gwleidyddol a chyhoeddus Cymru. Mae pobl anabl neu BME yn meddu ar lain a 4% o benodiadau cyhoeddus,²⁴ er bod data'n annigonol i ddeall yn llawn brofiadau menywod BME ac anabl. Mae'n rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU ddiddymu rhwystrau'n effeithiol i'r rhai hynny sydd wedi'u tangynrychioli yn y meysydd gwleidyddol a chyhoeddus.

Er gwaethaf Arian Mynediad i Swyddi Etholedig i ymgeiswyr anabl yn yr Alban²⁵ a Lloegr²⁶, nid oes gan Gymru unrhyw fentrau o hyd. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu 'Cronfa Drws i Ddemocratiaeth'²⁷ yn ddi-oed i alluogi menywod anabl yng Nghymru i sefyll yn etholiadau'r Cynulliad a lleol erbyn 2021.

Yn ôl ymchwil yn y DU, mae mwy o amrywiaeth rhyw ar uwch-dîm rheoli'n cyfateb i berfformiad uwch gyda chynnydd mewn perfformiad ariannol.²⁸ Dengys ymchwil hefyd fod AC benywaidd yn llawer mwy tebygol o godi materion, gofyn cwestiynau ac ymyrryd ar gyflog cyfartal, cam-drin domestig, iechyd menywod a gofal plant.²⁹ Fodd bynnag, er gwaethaf cabinet cydbwysedd rhyw newydd Llywodraeth Cymru, a bod 47% o AC yn fenywod, mae gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad sy'n craffu ar Lywodraeth Cymru ar y materion hyn yn cynnwys dwy fenyw'n unig ar hyn o bryd (25%)³⁰, yn ogystal ac un AC a gosbwyd yn flaenorol am araith gasineb yn y siambr.³¹

²¹ Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2017, Comisiwn Cyraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/wrw_2017_english.pdf

²² <https://www.electoral-reform.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/New-Voices.pdf>

²³ Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2017, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

²⁴ Ibid

²⁵ Gwnaeth mynediad i Arian Swyddi Etholedig a gynhaliwyd gan Inclusion Scotland gefnogi pobl anabl i sefyll yn etholiadau lleol yr Alban yn 2017 a darparu cymorth i 39 o ymgeiswyr y cafodd 15 ohonynt eu hethol

<http://inclusionScotland.org/what-we-do/employability-and-civic-participation/access-to-politics/aeofs/>

²⁶ Cronfa EnAble yn Lloegr, wedi'i hariannu gan Lywodraeth y DU.

²⁷ <https://beta.gov.wales/action-disability-right-independent-living> (pp13)

²⁸ Diversity Matters, Hunt, Layton and Prince, McKinsey & Company, 2015

<https://www.mckinsey.com/~media/mckinsey/business%20functions/organization/our%20insights/why%20diversity%20matters/diversity%20matters.ashx>

²⁹ Women and policy-making: Devolution, Civil Society and Political Representation. Paul Chaney, 2016

³⁰ <http://www.assembly.wales/en/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=447>

³¹ <https://www.bbc.co.uk/news/av/42340420/ukip-s-gareth-bennett-told-to-apologise-for-transgender-comments>

Mae 64% o fenywod ledled y DU wedi adrodd eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol mewn manau cyhoeddus³² ac mae 1 ym mhob 5 o bobl sy'n gweithio yn Senedd y DU wedi bod yn destun aflonyddu rhywiol.³³ Yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r polisi Urddas a Pharch maw rei angen yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i AC, er bod cynnydd yn araf.

Ar wahan i'r sectorau iechyd ac addysg, mae menywod yng Nghymru'n parhau ifod yn absennol gan mwyaf o swyddi â phŵer ac wedi'u tangynrychioli mewn meysydd gwneud penderfyniadau a dyrannu cyllideb. O ran penodiadau cyhoeddus, er bod 47% o benodiadau yn 2015-2016 yn fenywod, mae gwahaniad rhyw dal yn bodoli³⁴

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i bolisiau aflonyddu rhywiol ar draws gwleidyddiaeth y DU fod o safon rhyngwladol i ddal camdrinwyr i gyfrif ac i wahardd ymddygiad annerbyniol
- Dylai Llywodraeth y DU benodi cabinet â chydbwysedd rhyw a dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod ei chabinet yn parhau i gynnal cydbwysedd rhyw yn y dyfodol, gan barhau i ymrwymo i ariannu tymor hir i gynyddu cynrychiolaeth a chyfranogiad gweithredol menywod BME, LGBT, anabl a dosbarth gweithiol ym mywyd gwleidyddol a chyhoeddus Cymru ac yn y DU
- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa 'Drws i Ddemocratiaeth' mewn partneriaeth â'r sector anabledd gwirfoddol yng Nghymru i gynyddu cynrychiolaeth gyfartal pobl anabl yng ngwleidyddiaeth

Erthygl 8: Menywod fel Cynrychiolwyr Rhyngwladol

Yn syth ar ôl refferendwm yr UE, roedd troseddau casineb a gofnodwyd gan heddlu'r DU ym mis Gorffennaf 2016 41% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol³⁵ ac amcangyfrifwyd bod troseddau casineb yn erbyn menywod Mwslimaidd wedi cynyddu dros 300%.³⁶ Yng Nghymru, cafwyd codiad o 76% mewn troseddau casineb hiliol yn haf 2016,³⁷ y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef. Bydd gadael yr UE yn golygu bod gan fenywod o Gymru lai o ddylanwad dros

³² YouGov/Pleidlais Dod i ben â Thrais yn erbyn Menywod 2016.

³³ <https://www.independent.co.uk/news/uk/politics/westminster-sexual-harassment-one-five-report-leaked-mps-lords-staff-a8199401.html>

³⁴ [Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2017, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.](#)

³⁵ H. Corcoran & K. Smith, 'Hate Crime, England and Wales, 2015/16' y Swyddfa Gartref, 2016, https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/559319/hate-crime-1516-hosb1116.pdf, (mynediad 7 Chwefror 2017)

³⁶ 'If 'Brexit means Brexit' what will that mean for women?', Grŵp Cyllidebu Menywod, [gwefan], 2016, <http://wbg.org.uk/analysis/brexit-meansbrexit-will-mean-women/>, (mynediad 7 Chwefror 2017)

³⁷ Adroddiad gan Gyngor Hil Cymru o ffigurau adrodd am droseddau casineb Cefnogaeth Dioddefwyr Cymru

deddfwriaeth yr UE a llai o gyfleoedd i wthio am fwy o gydraddoldeb rhyw. Gallai effaith Prydael hefyd olygu llai o hawliau cyfreithiol i fenywod, llai o arian i sefydliadau menywod a rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau VAWG arbenigol.³⁸

Bydd peidio â bod yn llofnodwr ar Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE³⁹ yn creu bylchau mewn diogeliad hawliau dynol. Er enghraifft, mae'n cynnwys 'hawl i ddiogeliad heb wahaniaethu o'r hyn sydd orau i blentyn a'r hawl i urddas dynol.' Bydd hefyd yn golygu y bydd llai o bŵer i ddiogelu hawliau menywod.

Bydd colli diogeliad a chyflafareddiad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn golygu diwedd i gamau diogelu a chydaddoldeb deddfwriaeth presennol. Bydd deddfwriaeth cydraddoldeb yr UE sydd heb ei phenderfynu'n derfynol neu ei chynnwys yng nghyfraith y DU yn cael ei cholli, er enghraifft deddfwriaeth absenoldeb rhiant sy'n datblygu, gweithio hyblyg a bwydo ar y fron yn y gweithle sy'n datblygu. Bydd hefyd yn cyfyngu gallu Cymru i fod ar flaen y gad o ran deddfwriaeth a pholisïau cydraddoldeb byd-eang oherwydd ni fydd Cymru bellach yn cymryd rôl weithredol i helpu i lunio cyfraith cydraddoldeb yr UE a chynnwys hyn yng nghyfraith y DU yn awtomatig.

Bydd Cymru'n colli £680 miliwn y flwyddyn gan yr UE yn flynyddol a fydd yn cael effaith negyddol ar fenywod.⁴⁰

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU gynnal ei safonau rhyngwladol o ddiogeliad hawliau dynol drwy adael cynlluniau i greu Bil Hawliau i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynnwys hawliau menywod, a ddiogelir gan deddfwriaeth yr UE, i gyfraith domestig i warantu na fydd unrhyw hawliau menywod neu hawliau dynol yn cael eu colli ar ôl Prydael
- Mae'n rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU fynd i'r afael yn effeithiol â'r cynnydd mewn troseddau casineb, hiliaeth a gwahaniaethu estrongasaol kledled y DU, yn dilyn refferendwm yr UE a lliniaru effeithiau negyddol Prydael sy'n debygol o effeithio'n negyddol ar fenywod yn weithredol
- Ôlcynnal yng Nghymru ar ôl Prydael a bod menywod yn cymryd rhan mewn swyddi âdylanwad yn y perthnasoedd rhyngwladol parhaus hyn

³⁸ <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/WWA-Future-of-equality-and-human-rights-in-Wales-consultation.pdf>

³⁹ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:12012P/TXT>

⁴⁰ Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, Papur Gwyn 'Diogelu Dyfodol Cymru', mis Ionawr 2017

Erthygl 9: Cenedligrwydd

Mae'r meini prawf ariannol a roddir ar gyplau sy'n aros if od gyda'i gilydd yn y DU yn gwahaniaethu yn erbyn menywod sy'n hanu o'r DU â phriod tramor/heb fod o'r UE. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn gofyn i breswylwyr y DU ennill incwm blynyddol o leiaf £18,600 er mwyn i briod ymuno â hwy yn y wlad.⁴¹ Mae'r swm hwn fod i gynrychioli'r swm lle gallai unigolyn gefnogi priod rhywun hen i'r priod orfod gael cymorth gan arian y cyhoedd. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu am y ffaith fod enillion menywod ar gyfartaledd yng Nghymru'n llai na gweddill y DU neu fod menywod yn llawer mwy tebygol o fod mewn swyddi cyflog isel/Gwaith rhan-amser na dynion.

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU gefnogi pobl sy'n hanu o'r DU â phriod nad ydynt yn dod o'r DU a chydabod bod y gofynion ariannol yn creu rheystrau i fenywod sy'n byw mewn ardaloedd â chyflogau cyfatebol is, gan gydnabod hefyd bod y gost fyw hefyd yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol.

Erthygl 10: Addysg

Gwnaeth Adolygiad Donaldson⁴² argymhell newid mawr mewn addysg i Gymru sy'n rhoi cyfle go iawn i wella'r cwricwlwm presennol.

Mae angen i'r holl ysgolion fabwysiadu ymagwedd addysg gyfan i drais yn erbyn menywod, addysg hawliau dynol a gwleidyddiaeth, gan gynnwys CEDAW. Lle mae eisoes ar gael, dylai ddefnyddio'r arweiniad presennol, megis Arweiniad Arfer Da Ymagwedd Addysg Gyfan⁴³ a'r Pecyn Cymorth Adnoddau, a'r adnodd 'Agenda'⁴⁴. Fodd bynnag, nid oes digon o arian i gyflwyno'r rhain ledled Cymru.

Mae gormod o ferched yn colli ysgol yn rheolaidd o ganlyniad i 'dlodi misglwyf'. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn i helpu'r 'rhai hynny â'r angen mwyaf'.⁴⁵ Mae Plan International UK wedi canfod fod 10% o ferched 14-21 oed yn y DU wedi methu â fforddio cynnyrch hylendid ar ryw adeg, ac mae 1 ym mhob 7 yn ei chael hi'n anodd

⁴¹ Mae hyn yn cynyddu fesul plentyn (£3,800 i'r plenty cyntaf, £2,400 am bob plenty ar ôl hynny) ac yn ogystal â £16,000 mewn cynilion: <https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules>

⁴² Ar gael yn: <https://www.nasuwat.org.uk/asset/A788604C-3046-4005-A1EA0EAF023E0DD/>
<https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/wcee/successful-futures.pdf>

⁴³ <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-en.pdf>

⁴⁴ <http://agenda.wales/>

⁴⁵ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43513354>

eu fforddio.⁴⁶ Mae 64% o ferched wedi colli addysg gorfforol neu chwaraeon oherwydd misglwyf, y mae 52% o ferched wedi celwydda neu roi esgus.⁴⁷

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr holl 33 o argymhellion o'r adroddiad annibynnol Menywod Talentog er Cymru Lwyddiannus, sy'n gofyn am wella cydbwysedd rhyw mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), mewn polisiau a rhaglenni ar gyfer hyfforddi athrawon, diwygio'r cwricwlwm, cyngor ar yrfaedd, prentisiaethau a mwy o arian am addysg uwch a phellach.⁴⁸ Mae'n rhaid i hyn drosi i newidiadau i'r cydbwysedd rhyw mewn gyrfaedd STEM.

Yn 2017-18, gwnaeth Arolygiaeth Addysg Estyn gynnal adolygiad thematig o addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a llunio adroddiad ag argymhellion.⁴⁹ Ymgwymerwyd hefyd ag adolygiad o addysg rhywioldeb a pherthnasoedd mewn ysgolion yng Nghymru gan Banel Arbenigol addysg rhywioldeb a pherthnasoedd, a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion sy'n herio stereoteip rhyw a rhywiol, ac ymwybyddiaeth uwch o gydraddoldeb rhyw a chydaddoldeb a thegwch rhywiol. Derbyniwyd yr holl argymhellion gan Lywodraeth Cymru, er mwyn i ysgolion arloesol eu mabwysiadu wrth iddynt ddatblygu dyfodol newydd cwricwlwm addysg rhywioldeb a pherthnasoedd yng Nghymru yn 2017.

Ceir pryder na fydd newidiadau'r cwricwlwm yng Nghymru'n dod i rym tan 2021/2022, gan olygu y bydd llawer o'r myfyrwyr presennol yn colli'r dysgu hanfodol hwn erbyn iddynt gwblhau eu haddysg.

Mae'n rhaid gwneud mwy i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol mewn ysgolion yng Nghymru: gwnaeth rhwng 10 ac 20% o ferched mewn ysgolion cynradd ddweud eu bod wedi profi cyffwrdd neu gusanu dieisiau mewn ysgolion uwchradd gan fachgen o leiaf unwaith⁵⁰ Mae adnoddau gwrth-fwllo – sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd – ac sy'n cynnwys bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig, hefyd yn tynnu sylw at y materion difrifol mewn ysgolion ac mae angen i'r adnoddau hyn wneud cysylltiad rhwng VAWG a bwlio mewn perthynas â thrais rhwng cyfoedion.⁵¹

⁴⁶ <https://plan-uk.org/media-centre/freeperiods-research-on-period-poverty-and-stigma>

⁴⁷ <https://plan-uk.org/media-centre/freeperiods-research-on-period-poverty-and-stigma>

⁴⁸ <https://gov.wales/topics/science-and-technology/science/women-in-science/?skip=1&lang=en>

⁴⁹ <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/A%20review%20of%20healthy%20relationships%20education.pdf>

⁵⁰ Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion o 35,071 o fyfyrwyr o 87 o ysgolion uwchradd yng Nghymru (SHRN, 2015)

⁵¹ Fel a amlygir yn atodiad 7 adroddiad y Panel Arbenigol Rhyw a Pherthnasoedd:

<https://gov.wales/docs/dcells/publications/180104-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-en.pdf>

Argymhellion:

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dull cydlynol ar fabwysiadu'r newidiadau cytunedig i addysg rhywioldeb a pherthnasoedd yng Nghymru a buddsoddi mewn addysg rhywioldeb a pherthnasoedd cyn gweithredu'r cwricwlwm newydd
- Dylai Llywodraeth Cymru weithredu addysg hawliau dynol gorfodol a ariennir mewn ysgolion, gan ddatblygu dysgu Gwaith Comisiynydd Cymru Plant ar 'ysgolion sy'n parchu hawliau' yn seiliedig ar CCUHP⁵²
- Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar yr argymhelliad gan y Panel Arbenigol Rhywioldeb a Pherthnasoedd i sefydlu marc rhagoriaeth addysg rhywioldeb a pherthnasoedd i dynnu sylw at ymagweddau ysgoil gyfan enghreifftiol i gydraddoldeb rhyw ac addysg rhywioldeb a pherthnasoedd⁵³ drwy weithio gydag Estyn i sicrhau bod yr holl sefydliadau addysgol yng Nghymru'n meddu ar ymagwedd addysg gyfan at drais yn erbyn menywod a marched a defnyddio adnoddau ac arweiniad sydd ar gael⁵⁴
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu mesurau i sicrhau diogelwch merched drwy fonitro a mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn well mewn ysgolion, yn benodol mewn perthynas â disgyblion trawsrywiol a hyfforddi athrawon ar sut i ymateb a chyfeirio'n briodol ar gyfer pob math o VAWG
- Mae rhaid i fentrau Llywodraeth Cymru ynghylch addysg STEM drosi i lwybrau gyrfu â chyflog gwell i fenywod/merched

Erthygl 11: Cyflogaeth

Mae menywod dal yn wynebu gwahaniaethu uniongyrchol yn y gweithle. Gallai ymgynghoriad presennol Llywodraeth y DU ar wahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth roi mwy o ddiogelwch i fenywod a rhieni newydd, y mae mawr ei angen.⁵⁵ Yn ôl ymchwil, mae un ym mhob pum mam yn y DU wedi profi aflonyddu neu sylwadau negyddol sy'n ymwneud â

⁵² <https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/>

⁵³ <https://gov.wales/docs/dcells/publications/180104-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-en.pdf>

⁵⁴ Er enghraifft, mae'r rhaglen Spectrum Cymru gan Hafan Cymru ar hyn o bryd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru, er bod yr arian yn gyfyngedig ac mae'n cael ei chyflwyno'n lleol ac nid yn genedlaethol, <http://www.hafancymru.co.uk/our-services/spectrum/>,

⁵⁵ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/773179/extending-redundancy-protection-for-pregnant-women.pdf

beichiogrwydd neu weithio hyblyg gan eu cyflogwyr⁵⁶. Gwnaeth 52% o fenywod adrodd am adlonyddwch rhywiol yn y gweithle yn 2016.⁵⁷

Mae menywod BME ac anabl yn wynebu sawl rhwystr, ac yn aml yn profi gwahaniaethu ar bob cam o'r broses recriwtio.⁵⁸ Mae menywod BME yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na'u cyfoedion gwyn, hyd yn oed gan ystyried cymwysterau, gan wynebu rhwystrau ieithyddol a stereoteip rhyw;⁵⁹ ac maent yn cael eu cynrychioli'n llai ar draws prentisiaethau yng Nghymru.⁶⁰

Mae pobl anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi na phobl nad ydynt yn anabl a phan cânt eu cyflogi, maent yn derbyn cyflog is;⁶¹ ac er gwaethaf cymwysterau, mae gan fenywod anabl gyfraddau cyfranogi is mewn swyddi y mae angen mwy o sgiliau are u cyfer ac yn gweithio llai o oriau na menywod nad ydynt yn anabl.⁶²

Mae gwahaniad galwedigaethol, Gwaith rhan-amser cyflog isel, 'cyfrifoldeb' menywod dros ofal di-dâl' a mwy o fenywod yn gweithio mewn sectorau wedi'u ffemineiddio yn cyfrannu at fwlch cyflog rhyw parhaus⁶³ a mwy o risg o dlodi i fenywod. Y cyflog fesul awr ar gyfartaledd i fenywod yng Nghymru yw £10.38 o gymharu â £12.19 i ddynion.⁶⁴ Ar gyfer gweithwyr rhan-amser, y cyflog ar gyfartaledd yw £8.80 fesul awr, o gymharu â £12.52 ar gyfer gweithwyr amser llawn.⁶⁵

Mae cyflog isel yn gyffredin yn y sector gofal yng Nghymru gyda 56% o bobl ar gontractau dim oriau.⁶⁶ ⁶⁷ O ganlyniad, mae gweithwyr yn aml yn ennill swm cwbl wahanol bob mis, gan ei wneud yn anodd i gyllidebu neu gael morgais. Teimlir effaith contractau dim oriau hyd yn oed yn gryfach gan rieni sengl sy'n dibynnu ar ofal plant ffurfiol. Mae ymrwymiad Llywodraeth

⁵⁶ Gwahaniaethu ac anfantais beichiogrwydd a mamolaeth: Crynodeb o'r prif ganfyddiadau, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018. <https://www.equalityhumanrights.com/en/managing-pregnancy-and-maternity-workplace/pregnancy-and-maternity-discrimination-research-findings>

⁵⁷ <https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/SexualHarassmentreport2016.pdf>.

⁵⁸ [Intersecting inequalities: The impact of austerity on Black and Minority Ethnic women in the UK](#), Runnymede Trust a Grŵp Cyllidebu Menywod gyda RECLAIM a Coventry Women's Voices, 2017.

⁵⁹ [The time for talking is over, now is the time to act: Race in the workplace](#), McGregor-Smith, 2017.

⁶⁰ Rhwystrau i Brentisiaethau: Anawsterau a brofwyd gan ddysgwyr o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig a'r sawl ag anabledau wrth ddechrau ar raglenni prentisiaeth, Tachwedd 2014, Estyn.

⁶¹ [The disability pay gap](#), Crynodeb Gweithredol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,

⁶² [Women Returns Annual Report](#), Grŵp Hollblaid Seneddol i Fenywod a Gwaith. 2016.

⁶³ [Disability in the United Kingdom](#), Papworth Trust 2014.

⁶⁴ Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg blynyddol o Oriau ac Enillion, 2017.

⁶⁵ Bevan Foundation / JRF *Prosperity without Poverty* 2016.

⁶⁶ Mae contract dim oriau'n caniatáu i gyflogwyr gyflogi staff heb warantu gwaith h.y. dim oriau yn y contract, galluogi cyflogwyr i dalu gweithwyr pan fo angen yn unig, yn am lar fyr rybudd gan leihau sefydlogrwydd cyflogaeth a rhai hawliau cyflogaeth yn sylweddol (e.e. cyflog salwch).

⁶⁷ Gofal Cymdeithasol Cymru, Mawrth 2016.

Cymru i ddod i ben â chontractau dim oriau yn y sector gofal domestig yn cael ei groesawu, er bod yn rhaid monitro'r sefyllfa'n agos.⁶⁸

Gwneir gofalu di-dâl i bobl anabl, difrifol sâl neu bobl hŷn yn bennaf gan fenywod a'r swm ywn £8.1 biliwn y flwyddyn yng Nghymru – bron yn dyblu dros y 15 mlynedd diwethaf.⁶⁹ Mae menywod yn parhau i fod y prif ofalwr i blant gyda 94% o Hawliadau Budd-dak Plant y DU yn cael ei dalu i fenywod,⁷⁰ ac mae bron hanner yr holl famau yng Nghymru'n dweud eu bod yn hollol gyfrifol neu'n bennaf cyfrifol am ofal plant (o gymharu â 4% yn unig o dadau).⁷¹

Mae ymgymieriant isel o absenoldeb rhieni a rennir wedi gweld 250 yn unig o ddynion yn ei gymryd yng Nghymru yn 2016/17.⁷² Nid yw'r haw li ofyn am weithio hyblyg wedi newid ein diwylliant yn y gweithle eto⁷³ ac mae gallu dynion i gael mynediad i gefnogaeth am gyfrifoldebau gofal plant yn y gweithle'n gyfyngedig.⁷⁴

Gall uchelgeisiau, cyflawniadau ac iechyd menywod gael eu cwtogi gan ddiffyg gofal plant a gofal cymdeithasol fforddiadwy a hyblyg.⁷⁵ Nid oes llawer o ddata cyfredol, fodd bynnag mae bylchau mewn darpariaeth i blant anabl yn cynyddu yng Nghymru. Yn 2015, 7% yn unig o awdurdodau lleol yn Nghymru oedd â digon o ofal plant i blant anabl, o gymharu ag 18% yn 2014.⁷⁶

Roedd menywod 45-54 oed dros ddwywaith mor debygol â gofalwyr eraill i orfod lleihau eu horiau gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu.⁷⁷ Nid yw cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru o 30 o oriau'r wythnos i blant dros 3 oed yn cynnwys rhieni di-waith. Mae menywod yn cymryd cyfrifoldeb anghyfartal am ofal plant di-dâl, sy'n factor sy'n cyfrannu at y bwlch rhyw mewn cyflog.⁷⁸ Daeth adroddiad diweddar i'r casgliad er bod llawer o gyflogau wedi parhau'n ddisymud, mae'r gost ar gyfartaledd o dalu meithrinfa wedi codi i blentyn dan ddwy oed 1.7% i £92 fesul wythnos am 25 o oriau o ofal.⁷⁹

⁶⁸ <https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/care-workers/?lang=cy>

⁶⁹ State of Caring 2017 Gofalwyr Cymru, www.carerswales.org/stateofcaring

⁷⁰ Fawcett Society (2013) Benefits. <http://www.fawcettsociety.org.uk/2013/02/benefits/>

⁷¹ Chwarae Teg (2013) A Woman's Place. <http://chwaraeteg.com/a-womans-place/>

⁷² <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-40265334>.

⁷³ Tada yn y gweithle, Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, Tŷ'r Cyffredin, 2018

⁷⁴ Ibid

⁷⁴ State of Caring 2014, Gofalwyr Cymru

⁷⁵ Mae gofalwyr sy'n fenywod ifanc, yn enwedig y rhai hynny sy'n darparu 50 o oriau neu'n fwy o ofal di-dâl yn llai tebygol o gymryd rhan mewn addysg bellach ac uwch na'r rhai hynny nad ydynt yn gofalu: UCM (heb ddyddiad) dysgu â gofal – profiadau o ofalwyr sy'n fyfyrwr yn y DU. Undeb Cenedlaethiol y Myfyrwr.

⁷⁶ Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant (2015) [Arolwg Cost gofal plant 2015](#)

⁷⁷ Cyflogwyr Gofalwyr a Gofalwyr y DU (2015) Gofalu ac unigrwydd yn y gweithle

⁷⁸ Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ail adroddiad sesiwn 2015-16, Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, Tŷ'r Cyffredin.

⁷⁹ <https://www.familyandchildcaretrust.org/file/3479/download?token=mnu16-9Y>

Ar ymweliad diweddar â'r DU gan Adroddwr y CU ar Dlodi Eithafol, gwnaeth ganfod fod 25% o swyddi yng Nghymru'n talu'n is na'r isafswm cyflog, a bod swyddi sy'n talu'n isel, rhan-amser neu ansefydlog yn aml yn cael eu gwneud gan fenywod, oherwydd anhawster cydbwysu gwaith a chyfrifoldebau gofalu.⁸⁰

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU weithredu i gynyddu ymgymieriant absenoldeb rhieni a rennir a hyrwyddo pwysigrwydd tadolaeth gyfrifol a chyfrifoldeb teulu a rennir
- Mae'n rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU fuddsoddi mewn gwaith gofalu nad yw'n dibynnu ar waith gofal di-dâl menywod a deddfwriaethu i weithwyr gael hawl i 5-10 o ddiwrnodau o absenoldeb gofal â thâl fesul blwyddyn
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â phris gofal plant fel rhwystr i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith, gan gynnig gofal plant o chwe mis oes, a sicrhau y diwellir anghenion rhieni hunangyflogedig, di-waith, sengl a rhieni plant anabl
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cymhelliad ariannol i ddarparwyr gofal plant i gyflawni er plant anabl
- Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth drwy gynnig mwy o ddiogeliad i fenywod a dynion

Erthygl 12: Iechyd

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, bydd mwy o alw am ofal. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n amcangyfrif y bydd 184,000 o bobl yng Nghymru 85 oed neu'n hŷn erbyn 2036, sef cynnydd o 145% ers 2011.⁸¹ Mae anghydraddoldeb amlwg mewn sawl agwedd wahanol ar ofal iechyd yng Nghymru. Nid oes gan fenywod sy'n byw yng Nghymru fynediad cyfartal i ofal iechyd ac mae pobl anabl yn fwy tebygol o farw'n iau a phrofi anghydraddoldeb iechyd a chyflyrau iechyd difrifol na phobl eraill.⁸²

Gwnaeth Pwyllgor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl nodi yn y DU, fod menywod a merched anabl yn wynebu sawl rhwystr wrth gael mynediad i wasanaethau

⁸⁰ <https://www.ohchr.org/EN/NewsEvents/Pages/DisplayNews.aspx?NewsID=23881&LangID=E>

⁸¹ Newyddion y BBC, 23 Awst 2016

⁸² [Being Disabled in Britain: A journey less equal](#), EHRC

iechyd rhyw ac atalgenhedlu, gyda diffyg gwybodaeth hygyrch.⁸³

Yn ôl ymchwili ddiweddar gan Stonewall,⁸⁴ nodi fod 51% o bobl draws sy'n byw yng Nghymru (41% ledled y DU) yn gweld bod gan staff gofal iechyd ddissyg dealltwriaeth o anghenion iechyd traws penodol wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd cyffredinol. Yn ogystal, dywedodd 7% o bobl draws eu bod wedi methu â chael gofal wrth geisio cael mynediad i wasanaethau gofal iechyd oherwydd eu bod yn LGBT.⁸⁵ Yn bwysig, agorodd clinig gofal iechyd trawsrywiol cyntaf Cymru ym mis Hydref 2018 ac mae'n cael ei gefnogi gan rwydwaith o feddygon teulu arbenigol⁸⁶ er bod lleoliad y clinig yng Nghaerdydd dal i fod yn rhwystr (cost ac amser) i gleifion sy'n byw yn rhannau eraill o'r wlad.

Mae problemau hefyd gyda gofal iechyd amenedigol. Yn ôl Archwiliad Canlyniadau Amenedigol Hywel Dda, yn hytrach na gwella canlyniadau, ymddengys fod canoli gwasanaethau'n cael effaith negyddol ar gyfraddau amenedigol a chyfraddau marw-enedigaeth yn nhrigolion Sir Benfro ac ar draws Hywel Dda yn ei gyfanrwydd.⁸⁷

Daeth ymchwili i'r menopos ganfod fod anghysondeb o ran gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fenywod sy'n profi'r menopos.⁸⁸ Mae oddeutu 27% o fenywod yn teimlo fel yr ymdrinnir â'r menopos y neu gweithleoedd yn negyddol ac roedd 56% yn teimlo fel bod y menopos yn cael ei drin fel jôc.⁸⁹ Mae menywod a merched ag endometriosis, â symptomau sy'n cael eu galwn'n 'boen misglwyf', yn aros 7.5 mlynedd i derbyn diagnosis a thriniaeth briodol.⁹⁰ Mae'n rhaid gwneud llawer mwy i ymchwilio i broblemau iechyd menywod a'u trin.

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall menywod sy'n wynebu sawl anghydraddoldeb gael mynediad i wasanaethau iechyd yn gyfartal
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu ymchwili o safon i driniaeth briodol cyflyrau iechyd menywod a chynyddu ymwybyddiaeth fel y gall cyflogwyr gefnogi eu staff yn ddigonol

⁸³ Casgliad o ran arsylwadau ar adroddiad cychwynnol Deyrnas Unedig Prydain a Gogledd Iwerddon, Pwyllgor ar Hawliau Personau ag Anableddau, 2017 mynediad yn http://www.disabilitywales.org/crpd_c_gbr_co_1_28817_e/

⁸⁴ <https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/lgbt-in-britain-trans.pdf>

⁸⁵ <https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/lgbt-in-britain-trans.pdf>

⁸⁶ <https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/genderid/?lang=en>

⁸⁷ <http://thhb.co.uk/2017/05/03/hospital-services-baby-deaths/>

⁸⁸ Gweithredu ar y menopos, 2016 RhCM Cymru

⁸⁹ Y Menopos, Mater yn y Gweithle, TUC, 2017

⁹⁰ NICE (2017) [Endometriosis: diagnosis a rheolaeth](#)

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod menywod yn cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau ynghylch ariannu a dylunio gwasanaethau gofal iechyd fel bod anghenion iechyd menywod yn cael eu cydnabod a'u deall yn well

Erthygl 13: Bywyd economaidd a chymdeithasol

Rhwng 2010-15, cafwyd gwerth £26 biliwn o doriadau mewn llesiant yn y DU, gyda £22 biliwn yn effeithio a fenywod.⁹¹ Ar gyfartaledd, mae menywod yn dioddef colled flynyddol o £940 o ganlyniad, bron dwbl y swm i ddynion.⁹² Rhagwelir y bydd mamau sengl, sy'n gyfrifol am 90% o'r holl rieni sengl, yn wynebu colled ar gyfartaledd o £5,250 y flwyddyn, a bydd rhieni sengl â phlant anabl sydd ag o leiaf un plentyn anabl yn wynebu colledion ar gyfartaledd o £10,000 y flwyddyn.⁹³

Cafwyd problemau gyda chyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghymru, gan gynnwys hawlwr yn gorfod aros mwy na chwe wythnos i dderbyn eu taliadau cyntaf a gorfod defnyddio banciau bwyd o ganlyniad uniongyrchol.⁹⁴ Daeth oddeutu 29% o gyfeiriadau i fanciau bwyd oherwydd incwm isel neu hyd yr amser yr oedd teuluoedd yn gorfod aros am fudd-daliadau.⁹⁵

Cyflwynwyd y cyfyngiad budd-daliadau i ddechrau fel gostyngiad yn elfen dai nudd-daliadau hawlwr gan effeithio ar y rhai'n bennaf sy'n byw mewn ardaloedd â chostau tai uchel (e.e. Llundain). Fodd bynnag, hyd yn oed lle mae'r tai rhataf (e.e. Cymru) effeithir ar dros 12,000 o deuluoedd ag un i bedwar plentyn. Oherwydd bod y budd-daliadau wedi'u cyfyngu ar yr un lefel ni waeth beth yw nifer y plant, effeithir ar y sawl â theuluoedd mwy yn anghyfartal. Effeithir ar deuluoedd BME a theuluoedd sengl fwyaf.

Mae diwygiadau llesiant yn cael canlyniadau ofnadwy i oroeswyr VAWG ac maent yn rheoli hawliau atalgenhedlu menywod incwm isel. Gydag un ym mhob pum oedolyn Prydeinig wedi profi trais ariannol,⁹⁶ ac er gwaethaf Bil Trais Domestig Llywodraeth y DU yn cydnabod trais economaidd,⁹⁷ bydd Credyd Cynhwysol a roddir heb daliadau rhanedig yn cynyddu'r risg o drais economaidd.

⁹¹ The Fawcett Society, *Where's the Benefit? An Independent Inquiry into Women and Jobseeker's Allowance* 2015

⁹² Effaith fwyaf ar y tlotaf gan dreth, diogelwch cymdeithasol a diwygiadau gwariant cyhoeddus, 2017, adroddiad annibynnol gan y Comosiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

⁹³ Ibid

⁹⁴ https://chcymru.org.uk/uploads/general/The_Experience_of_Universal_Credit_03.17.pdf

⁹⁵ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-43870934>

⁹⁶ Money Matters: Research into the extent and nature of financial abuse in the UK, Nicola Sharp-Jeffs <http://www.refuge.org.uk/files/Money-Matters.pdf>

⁹⁷ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/772202/CCS1218158068-Web_Accessible.pdf

Mae gan Gredyd Treth Plant daliadau cyfyngedig i ddau blentyn, gyda 'chymal treisio' sy'n creu eithriad lle gall mam 'brofi' fod y plentyn wedi'i genhedlu drwy dreisio, sy'n hollol annerbyniol. Mae newidiadau llesiant yn lleihau swm yr arian y gall menywod gael mynediad iddo i gefnogi ei theulu ac yn creu rhwystrau ychwanegol i adael perthnasoedd treisiol.

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ddidymu'r cyfyngiad dau blentyn ar gredyd treth plant ac yna'r 'cymal treisio' a dyrannu Credyd Cynhwysol mewn taliadau rhanedig
- Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun gweithredu i liniaru effeithiau negyddol diwygio lles sy'n effeithio'n fwy ar fenywod

Erthygl 14: Merched a menywod mewn ardaloedd gwledig

Mae sawl agwedd ar dlodi gwledig, gan gynnwys diffyg mynediad i wasanaethau a chlodiant cyhoeddus anaml a drud⁹⁸ yn cael effaith negyddol ar fenywod ledled Cymru. Mae'r ddarpariaeth gofal iechyd wedi bod yn broblemus, gyda'r posibilrwydd o gau sawl Ysbyty. Mae byw mewn ardal wledig yn ei gwneud hi'n anodd i ferched/fenywod deithio i ardaloedd lle cynigir gwasanaethau iechyd rhyw heb dynnu sylw.

Mae'r diffyg band eang yn fater arbennig o heriol yng Nghymru wledig⁹⁹ sy'n atal menywod/merched mewn cael gymryd rhan hawdd a rheolaidd mewn dylunio a chyflwyno gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth.

Argymhelliad:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig cefnogaeth a dargedir i sicrhau bod gan fenywod a merched sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lais cyfartal wrth wneud penderfyniadau a chael mynediad i wasanaethau cyhoeddus drwy welliannau i'r seilwaith, y cludiant a'r cysylltedd rhyngwyrdd i ardaloedd gwledig yng Nghymru.

Erthygl 15: Cydraddoldeb gerbron y gyfraith

Mae toriadau i wariant cyhoeddus dros y deng mlynedd diwethaf a datblygiadau atchweliadol ar lefel lywodraeth y DU ynghylch mynediad i fecanwaith iawndal drwy gymorth cyfreithiol (Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2015) wedi cael effaith

⁹⁸ <http://piw.org.uk/files/2016/06/An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf>

⁹⁹ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-42808272>

sylweddol ar ferched a menywod.¹⁰⁰ Mae angen brys i ailrchwilio'r ddarpariaeth a'r mynediad i gymorth cyfreithiol i fenywod, yn enwedig y rhai hynny sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol a'r rhai hynny ag anghenion lluosog.

Y system cyfiawnder teuluol¹⁰¹ yw'r gwasanaeth cyhoeddus mwyaf negyddol a brofwyd gan oroeswyr trais domestig a rhywiol.¹⁰² Mae diffyg mynediad i gymorth cyfreithiol wedi arwain at sawl oroeswr yn cael eu croesholi gan eu trangwyddwyr yn Llysoedd y Teulu, sy'n defnyddio'r system cyfiawnder teuluol fel offeryn er mwyn cam-drin ymhellach. Gwaherddir yr arfer croesholi hwn ym Mil Trais Domestig presennol Llywodraeth y DU.¹⁰³ Mae angen adolygu meini prawf cyfreithiol. Mae'n hanfodol fod gan holl ddioddefwyr VAWG fynediad i gyfiawnder a bod gwasanaethau VAWG yn cael eu hariannu'n gynaliadwy i gefnogi goroeswyr¹⁰⁴

Argymhelliad:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau fod gan holl oroeswyr VAWG fynediad digonol i gymorth cyfreithiol a bod goroeswyr trais domestig yn cael eu cefnogi drwy'r Llysoedd Sifil a Theuluoedd ac nad oes modd i dramgwyddwyr ddefnyddio'r system cyfiawnder troseddol fel ffordd o gam-drin ymhellach

Erthygl 16: Priodas a bywyd teuluol

Mae llawer o fenywod yng Nghymru'n profi oedi artiffisial o ran cael mynediad i erthyliad, oherwydd y gofyniad i weld dau feddyg teulu cyn cael erthyliad, ac mae llawer yn talu £600 i gael mynediad amserol i wasanaethau gynecolegol drwy glinigau preifat,¹⁰⁵ oherwydd oedi mewn gwasanaethau iechyd cyhoeddus, sy'n gallu arwain at yr angen am erthyliadau llawfeddygol oherwydd ei fod yn rhy hwyr i gael erthygliad meddygol.

Yng Nghymru, mae 77.8% o erthyliadau'n feddygol yn hytrach nag yn llawfeddygol.¹⁰⁶ Yn annhebyg i Loegr, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau i alluogi menywod yng

¹⁰⁰ <https://rightsofwomen.org.uk/wp-content/uploads/2014/10/Evidence-to-the-Justice-Select-Committee-on-the-impact-of-changes-to.pdf>

¹⁰¹ Roedd hyn yn cynnwys problemau â chymorth cyfreithiol, Cafcass, gweithwyr cymdeithasol, canolfannau cyswllt a llysoess teuluoedd.

¹⁰² http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are_you_listening_and_am_I_being_heard_FINAL_July_2016.pdf

¹⁰³ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/772202/CCS1218158068-Web_Accessible.pdf

¹⁰⁴ <https://www.womensaid.org.uk/womens-aid-responds-mojs-changes-legal-aid-rules-survivors-domestic-abuse/>

¹⁰⁵ Fel a nodir gan Jenny Rathbone, Aelod y Cynulliad yn y Senedd ar 16 Ionawr 2018, <http://record.assembly.wales/Plenary/4896/>; <https://www.pharmaceutical-journal.com/news-and-analysis/news-in-brief/wales-updates-guidance-on-medical-abortion-at-home/20205096.article?firstPass=false>

¹⁰⁶ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43803251>

Nghymru i gynryd yr ail bilsen erthyliad meddygol yn y cartref, sydd wedi'i groesawu.¹⁰⁷ Mae angen mwy o fuddsoddiad ariannol i fynediad i erthyliad ledled Cymru, fel y gall yr holl fenywod dderbyn cefnogaeth ragorol ac amserol.

Yn dilyn refferendwm erthyliadau Gweriniaeth Iwerddon yn 2018, mae'n hanfodol fod Llywodraeth y DU yn llacio cyfreithiau erthyliad yng Ngogledd Iwerddon, yn hytrach na dibynnu'n unig ar wasanaethau GIG Cymru,¹⁰⁸ yr Alban,¹⁰⁹ a Lloegr¹¹⁰ yn cynnig gwasanaethau erthylu am ddim y neu hysbytai i fenywod o Ogledd Iwerddon.

Argymhellion:

- Yn dilyn refferendwm Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU lacio hawliau erthylu i fenywod yng Ngogledd Iwerddon
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wella gwasanaethau iechyd i fenywod yng Nghymru gael mynediad i erthyliadau

Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG)

Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Rhywiol a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDASV)¹¹¹ yn rhoi'r fframwaith ar gyfer dull strategol a chydlynol o ddod i ben â VAWG. Mae cyflawniad wedi bod yn araf – gwnaeth craffu ôl-ddeddfwriaethol o'r Ddeddf godi pryderon ynghylch anghysondeb parhaus y gweithredu, a'r camau gweithredu a'r amserlenni a nodir yn y cynllun cyflawni.¹¹² Yn ogystal, mae angen cynnwys yr holl droseddau fel a nodir yng 'Nghonfensiwn Istanbul', gan gynnwys arteithio anhaliethiol, stelcio a throseddau yn erbyn menywod ymfudol.¹¹³

Daeth ymchwil o hyd i'r ffaith fod menywod anabl yn fwy tebygol o brofi trais domestig, ymosodiadau rhywiol a chamdriniaeth emosiynol na menywod nad ydynt yn anabl.¹¹⁴ Yn 2017/18, cefnogwyd 12,166 o orosywyr trais gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru, a 12%

¹⁰⁷ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-44643459>

¹⁰⁸ <https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/niterm/?lang=cy>

¹⁰⁹ <https://news.gov.scot/news/nhs-abortion-services-for-ni-women>

¹¹⁰ <https://www.gov.uk/government/news/central-booking-system-for-ni-women-seeking-an-abortion-in-england>

¹¹¹ Yn unol â deddfwriaeth Cymru, trais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol, defnyddir yr acronym VAWDASV i fynd i'r afael â'r holl fathau o drais yn erbyn menywod.

¹¹² Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Lel a Chymunedau (2016) [Is the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence \(Wales\) Act 2015 working?](#) Chwarae Teg (2018) <https://www.cteg.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/final-Rapid-Review-of-Gender-Equality-Phase-One.pdf>

¹¹³ <https://www.coe.int/en/web/istanbul-convention/text-of-the-convention>

¹¹⁴ Cymorth i Ferched Cymru, Anabledd Cymru a Phrifysgol Morgannwg, 'Trais Domestig yn erbyn Menywod Anabl yng Nghymru', 2011

yn unig oedd yn anabl.¹¹⁵ Nid oedd modd ymdrin â 431 o oroeswyr trais domestig yng Nghymru oherwydd diffyg adnoddau a chapasiti.¹¹⁶ Cafwyd cynnydd blynyddol o 14% yn nifer y plant a phobl ifanc a gefnogir fel ffoaduriaid.¹¹⁷

Mae'n hanfodol fod drysau gwasanaethau cefnogi'n parhau ar agor. Mae'n rhaid i ariannu tymor hir, cynaliadwy gael ei ddyrannu o ffrydiau ariannu llywodraeth genedlaethol a lleol. Mae risg sylweddol i gynaliadwyedd gwasanaethau trais rhywiol, llochesau a gwasanaethau arbenigol i fenywod a phlant BME.¹¹⁸

Ar hyn o bryd, mae troseddau VAWG¹¹⁹ yn cyfrif am un ym mhob pum cyfanswm llwyth achos Gwasanaeth Erlyn Troseddol y DU ac mae mwy nag 84% o'r troseddau hynny'n ymwneud â thrais domestig.¹²⁰ Yn 2017/18, erlynwyd 5,814 o droseddau VAWG yng Nghymru (1,817 yn llai nag yn 2016-17) ar gyfradd erlyn o 76.5%.¹²¹

Agorwyd Clinig Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) ym mis Mai 2018, gan gynnig cefnogaeth i fenywod/ferched yr effeithir arnynt gan FGM. Gwnaeth ymgyrch wyliau ar FGM ym meysydd awyr Cymru helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth arbenigol sydd ar gael i ferched sy'n cael eu cludo o'r wlad am driniaethau FGM.

Mae adroddiad Cyflwr y Sector Cymorth i Ferched Cymru 2018¹²² yn tynnu sylw at ansicrwydd ynghylch ariannu ar gyfer gwasanaethau arbenigol yng Nghymru wrth i'r sector geisio cynnal ariannu blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r sector yn wynebu 'loteri cod post' sy'n dibynnu ar a fydd comisiynwyr lleol y neu blaenoriaethu, gan barhau i deimlo effaith toriadau ariannu cynyddol. Gwnaeth yr adroddiad hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau ar gyfer menywod BME, LBT ac anabl.¹²³

Mae toriadau posib i elfen ariannu cronfa Cefnogi Pobl y pot Grant Cefnogi Tai yn parhau if od yn bryder mawr. Mae'r ariannu craidd hwn yn hanfodol i gynnal gwasanaethau cefnogi (llochesau'n benodol). Gyda chynifer o ddarparwyr eisoes yn colli arian gallai mwy o doriadau fod yn drychinebus.¹²⁴

Mae gwasanaethau cefnogi ar gyfer menywod BME hefyd yn wynebu toriadau mawr a dyfodol ansicr, ac mae'r sector yn pwysleisio'r angen am gysondeb ariannu ar gyfer pob math

¹¹⁵ [Cymorth i Ferched Cymru, Cyflwr y Sector: Adeiladu gwasanaethau arbenigol cynaliadwy yng Nghymru, 2018](#)

¹¹⁶ Ibid

¹¹⁷ Mae hyn gyfwerth â 266 o blant a phobl ifanc bob tri mis. Ibid

¹¹⁸ Adroddiad Cyflwr y Sector 2017 2017, Cymorth i Ferched Cymru

<http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>

¹¹⁹ <https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/cps-vawg-report-2018.pdf>

¹²⁰ Ibid

¹²¹ Ibid

¹²² [Welsh Women's Aid, State of the Sector: Building sustainable specialist services in Wales, 2018](#)

¹²³ Ibid

¹²⁴ Ibid

o drais yn erbyn menywod. Yn aml mae asesiadau angen rhanbarthol yn methu â nodi anghenion menywod BME¹²⁵ sy'n golygu nad yw gwasanaethau a gynhelir gan fenywod BME ac ar eu cyfer yn cael eu comisiynu'n briodol yn lleol.

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU gadarnhau 'Confensiwn Istanbul' yn ddi-oed
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi digon o adnoddau i weithredu ei strategaeth VAWDASV genedlaethol yn llwyddiannus ar draws yr holl adrannau, gan gynnwys cyflwyno 'Confensiwn Istanbul' yng Nghymru
- Mae'n rhaid i Lyworaeth Cymru gyflawni eu hymrwymiad i ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau VAWG arbennigol, gan gynnwys gwasanaethau gan fenywod BME, LBT ac anabl ac ar eu cyfer.

¹²⁵ Adroddiad Cyflwr y Sector 2017, Cymorth i Ferched Cymru
<http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>.

ATODIAD

Cydlynu Cyrff Anllywodraethol:

Rhwydwaith aelodaeth o dros 1,300 o unigolion a sefydliadau sy'n gweithio i ddatblygu hawliau menywod ym mhob maes o fywyd yng Nghymru yw [Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod \(RhCM\) Cymru](#). Nod Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymruw creu cymdeithas decach lle mae menywod yn byw heb rhywiaeth a gwahaniaethu yn erbyn rhyw ac yn profi cydraddoldeb ym mhob agwedd ar eu bywydau beunyddiol.

Cynorthwywyd gan:

Sefydlwyd [Cynulliad Menywod Cymru](#) yn 1984 i ddarparu tystiolaeth o Gymru ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n dynode diwedd Degawd i Fenywod y CU (1975-1985). Mae Cynulliad Menywod Cymru'n ymrwymedig i [Lwyfan Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweithredu](#) a gytunwyd gan lywodraethau yn Beijing, yn seiliedig ar yr angen am Gydraddoldeb, Datblygiad a Heddwch. Nodau Cynulliad Menywod Cymru yw datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol i fenywod Cymru a hyrwyddo cydraddoldeb.

Ariannu:

Ariannwyd y Gwaith hwn gan y Baring Foundation a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, un o Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol y DU. Datblygwyd yr adroddiad hwn yn annibynnol, ac felly nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol na'r Baring Foundation.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gefnogi gan y sefydliadau canlynol:

- Bawso
- Chwarae Teg
- Anabledd Cymru
- Yr Athro Jackie Jones, Prifysgol Gorllewin Lloegr
- Llamau
- Oxfam Cymru
- Yr Athro Emma Renold, Prifysgol Caerdydd
- Stonewall Cymru
- Cynulliad Menywod Cymru
- Cymorth i Ferched Cymru

Diolchiadau:

- Diolch yn fawr i awdur ac ymchwilydd yr adroddiad hwn yr Athro Jackie Jones, o Gynulliad Menywod Cymru a Phrifysgol Gorllewin Cymru.
- Diolch hefyd i'r menywod a'r marchod unigol a ddaeth i ddigwyddiadau ymgynghori ac a wnaeth siarad am eu profiadau ac ateb yr e-ymgyngoriad.
- Diolch yn arbennig i Ceri Hayes, o Gender Matters, am ei chyfraniad cryf at y prosiect hwn.
- Diweddarwyd yr adroddiad hwn yn fewnol ym mis Ionawr 2019 gan Hilary Watson, RhCM Cymru.

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru
1145706

www.wenwales.org.uk

Contact: admin@wenwales.org.uk

Rhif Elusen:

Rhif y Cwmni: 07891533

© WEN Wales 2019